| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **28 Chwefror 2013** |
| **TEITL** | **"Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid"** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **D P Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno i'r Cyngor prif argymhellion adolygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) o drefniadau gofal iechyd yng Ngogledd Cymru sydd ag oblygiadau penodol i Wynedd ac adrodd yn ôl ar drafodaethau gyda BIPBC.** |

**<u>Cyflwyniad</u>**

1.0 Cefndir - Rhwng Awst a Hydref 2012 cynhaliodd BIPBC ymgynghoriad ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yn dilyn cyhoeddiad dogfen ymgynghorol "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid".

1.1 Yng nghyfarfod o Fwrdd BIPBC dydd Gwener 18 Ionawr 2013 cyhoeddwyd argymhellion yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn y cyfnod ymgynghori. Yn ychwanegol i hyn gwnaed Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac ystyriwyd ymateb y Cyngor Iechyd Cymunedol.

1.2 Yn sgil y cyhoeddiad derbyniwyd rhybudd o gynnig gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 24ain Ionawr, 2013 yn cynnig :-

**a) Bod y Cyngor yn cael cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd i drafod yr oblygiadau ariannol, disgwyliadau ar y gwasanaeth a bod dim newid yn cymryd lle hyd nes bod trafodaethau mwy aeddfed wedi digwydd.**

**b) Ein bod yn gofyn i'r Cyngor Iechyd Cymunedol gyfeirio'r mater i'r Gweinidog Iechyd, Lesley Griffiths, i'w ystyried.**

1.3 Mewn ymateb i'r uchod cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr o FIPBC ar y 30ain Ionawr ac ynghlwm mae nodiadau o'r cyfarfod hwnnw i sylw'r Cyngor.

## 2.0 Prif Argymhellion sy'n berthnasol i Wynedd

2.1 Cadarnhawyd tair blaenoriaeth arwyddocaol i ddatblygu gofal iechyd yng Ngogledd Cymru:-

a) gwaith ataliol wedi'i dargedu
b) gofal estynedig yn y cartref
c) symud gofal o ysbytai llym i'r gymuned.

Cadarnhawyd hefyd y byddent yn gweithio tuag at egwyddorion cyffredinol o:-

i) gofal cyson ar gael mewn llai o ysbytai,
ii) y dylai'r un gwasanaethau gofal fod ar gael o fewn taith car o 40 munud i gymaint â phosib,
iii) cryfhau gwasanaethau yn ysbytai "hwb".

2.2 Yng Ngwynedd cadarnhawyd y byddai Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Alltwen ac Ysbyty Cymunedol Dolgellau yn ysbytai "hwb".

2.3 Bydd 'Gofal Estynedig Adref' yn cael ei ddatblygu ar draws Gogledd Cymru gyda'i gyflwyno yn digwydd fesul cam ond ymhob ardal yn 2013/14.

2.4 Cadarnhawyd bydd Uned Mân Anafiadau Blaenau Ffestiniog yn cau gydag oriau'r unedau ym Mryn Beryl a Thywyn yn cael ei ddiwygio,

2.5 Cadarnhawyd y byddai gwasanaethau pelydr-x yn cau yn Nhywyn a Blaenau Ffestiniog. Nodwyd dau newid i'r cynigion gwreiddiol mewn perthynas â gwasanaethau pelydr-x, h.y. nifer y sesiynau yn Ysbyty Eryri ac Ysbyty Bryn Beryl yn lleihau (o 9 i 3 yn Eryri ac o 3 i 2 ym Mryn Beryl) ond bwriad i gomisiynu gwasanaethau ym Machynlleth i drigolion De Gwynedd.

2.6 Cadarnhawyd datblygiad Ysbyty Blaenau Ffestiniog fel canolfan i well gwasanaethau cymunedol, ehangu gwasanaethau cynradd, cau unedau mân anafiadau a phelydr-x ond gyda meddygon teulu yn darparu gwasanaeth mân anafiadau a chau gwlâu cleifion gyda gofal yn cael ei ddarparu yn Ysbyty Alltwen.

2.7 Mewn perthynas ag Iechyd Meddwl Pobl Hŷn (sy'n cynnwys gofal dementia) cadarnhawyd y bwriad i gryfhau gwasanaethau cymunedol a chyswllt ond cadarnhawyd cau yn barhaol Uned Meirion (Dolgellau) a Ward Hafan (Bryn Beryl).

2.8 Cadarnhawyd yr awgrym i gomisiynu gwasanaethau gofal dwys i fabanod ifanc o Arrow Park.

2.9 Cadarnhawyd y bwriad i ganoli gwasanaethau cymhleth a phrifwythiennol ar un safle ysbyty llem ond drwy symud i ddau safle i gychwyn.

## 3.0 <u>Ystyriaethau Perthnasol</u>

3.1 Mae'r effaith mwyaf o'r penderfyniadau am gael eu teimlo ym Mlaenau Ffestiniog gyda chau gwlâu cleifion, uned mân anafiadau a phelydr-x. Yn ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad nodwyd

"***Cydnabyddir Blaenau Ffestiniog fel ardal ddifreintiedig gydag anghyfartaleddau iechyd yn bresennol yn y boblogaeth o tua 4,800 a lle mae'r proffil oedran iau yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r bwriad felly i symud amryw o wasanaethau gan gynnwys gwelyau cleifion a'r uned fân-anafiadau o'r ardal i weld yn ymestyn y bwlch sydd eisoes yn bodoli. Pan drafodwyd y cynigion gan Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyngor Gwynedd ar Fedi 13, 2012 gwrthwynebwyd yn llwyr y bwriad i gau Ysbyty Blaenau Ffestiniog gan ei fod yn gwbl afresymol i dref â chryn boblogaeth golli'r gwasanaeth hwn. Byddai unrhyw fwriad gan y Bwrdd Iechyd i gau Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog yn creu pryder am wasanaethau iechyd mewn ardal wledig eang gan amddifadu'r cymunedau yma o wasanaethau gofal cychwynnol megis man-anafiadau, ac eilaidd megis gofal diwedd oes a hynny o fewn pellter teithio rhesymol."***

3.2 O'r drafodaeth gyda BIPBC does dim amserlen gweithredu wedi'i chadarnhau yn fwy na'r hyn a gyhoeddwyd ym mhapurau'r Bwrdd pan wnaed y cyhoeddiad ond cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r bwriad o ddatblygu canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mlaenau Ffestiniog fyddai yn sicrhau darparu gwasanaethau yn lleol. Mae trafodaeth y digwydd ynglŷn â pha wasanaethau fyddai hynny yn ei olygu a gofynnwyd i BIPBC wneud datganiad mwy cadarn i gadarnhau ei bwriad. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i gadarnhau argaeledd y swm o £4miliwn a soniwyd amdano yn y ddogfen ymgynghorol fyddai hefyd yn cynnig sicrwydd o'r bwriad i ddatblygu canolfan newydd.

3.3 Yn ymateb ffurfiol y Cyngor mynegwyd pryderon y gall symud y pwyslais i ofal cymunedol yn hytrach na gofal ysbyty olygu

gofynion ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor yn enwedig Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Bydd angen felly bod yn wyliadwrus wrth i'r pwyslais gofal iechyd newid gan sicrhau nad oes trosglwyddiad costau yn digwydd o'r gwasanaeth iechyd i lywodraeth leol.

3.4 Yn olaf rhoddir sylw penodol i'r newidiadau yn y maes iechyd meddwl pobl hŷn gan gynnwys gofal dementia. Tra'n croesawu'r bwriad i gryfhau gofal yn y gymuned mae'n siomedig derbyn cadarnhad fod Uned Meirion ac Ward Hafan yn cau yn barhaol. Mae'r sefyllfa yn argyfyngus yn Ne Gwynedd gyda diffyg llwyr o ofal nyrsio dementia ac ond nifer fechan o wlâu preswyl yn Nhywyn a Llan Ffestiniog. Golyga hyn cleifion a'u teuluoedd yn cael eu gorfodi i deithio pellter sylweddol i dderbyn gwasanaethau. Mae BIPBC yn cydnabod yr angen am ddarpariaeth i gyfarch y sefyllfa ym Meirionnydd ond heb ddod i gasgliad beth ddylai hyn fod.

3.5 Penderfyniad y gellir ei groesawu yw'r bwriad i dargedu gwaith ataliol. Mae hyn yn cynnig cyfle arwyddocaol i gydweithio i wella iechyd gan fanteisio ar y gwasanaethau uniongyrchol mae'r Cyngor yn ei ddarparu i gyfrannu tuag at hyn.

## 4.0 Cyngor Iechyd Cymunedol

4.1 Deallir fod y Cyngor Iechyd Cymunedol wedi oedi rhag ystyried argymhellion BIPBC ac y byddant yn gwneud hynny ar y 1af Fawrth.

## 5.0 Camau Nesaf ac Amserlen

5.1 O safbwynt y Cyngor mae'r drafodaeth gychwynnol yn sgil y rhybudd o gynnig wedi cytuno gyda BIPBC fod cyfle i gydweithio fwy i ddatblygu ar y cyd gwasanaethau sy'n addas i drigolion Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys y ganolfan iechyd a gofal ym Mlaenau Ffestiniog, model 'gofal estynedig' fwy perthnasol i ardal wledig a hefyd cefnogaeth i unigolion yn dioddef gyda phroblemau cof. Rhagwelir trafodaethau pellach yn digwydd i symud hyn yn ei blaen.

5.2 Yn y datganiadau oedd yn cyhoeddi eu penderfyniadau adroddwyd gan FIPBC fwriad i sefydlu strwythur gweithredu rhaglen yn syth gyda phrosiectau penodol yn cael eu sefydlu yn y grwpiau rhaglen glinigol berthnasol. Rhagwelir atebolrwydd i'r Tîm Gweithredol yn fisol ac fel bo angen i'r Bwrdd.

5.3 Nodir disgwylir cynrychiolaeth fwy eang yn y grwpiau gweithredu a gwireddu gan gynnwys partneriaid, defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolaeth o'r Cyngor Iechyd Cymuned.

5.4 Mae'n debyg fod amryw o awdurdodau lleol wedi cynnig yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad y dylid sefydlu fforymau strategol sirol. Mae BIPBC yn ymchwilio i rolau a chylch gorchwyl i'r fforymau ac yn cynnig cyswllt i'r newidiadau mawr o gwmpas gwasanaethau ardal (locality) a chymunedol.

*D P Lewis*
*Cyfarwyddwr Corfforaethol*
*Ionawr 2013*